



**TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together
Creating Communities)**

A company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig trwy warant

Trustees' report and financial statements
Year ended 31st March 2021

Adroddiad a datganiad ariannol yr Ymddiriedolwyr
am y flwyddyn yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2021

Registered charity number/ Rhif elusen gofrestredig 1086434
Company number/ Rhif cwmni 04033853

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

A company limited by guarantee / Cwmni cyfyngedig trwy warant

Financial Statements for the Year Ended 31st March 2021

Datganiadau Ariannol am y Flwyddyn yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2021

Contents / Cynnwys	Page / Tudalen
Legal and Administrative Information Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	1 – 2
Report of the Trustees Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	3 - 26
Accountants' Report to the Trustees Adroddiad y Cyfrifydd i'r Ymddiriedolwyr	27
Statement of Financial Activities Datganiad o Weithgareddau Ariannol	28
Balance Sheet Mantolen	29 – 30
Notes forming part of the financial statements Nodiadau sy'n rhan o'r datganiadau ariannol	31 – 38

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities) Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol

Cyfeireb a Gwybodaeth Weinyddol

Enw'r Elusen: TCC (Together Creating Communities / Trefnu Cymunedol Cymru)

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1086434

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 04033853

Swyddfa Gofrestredig a Chyfeiriad gweithredol: 37 Ffordd Kingsmills, Wreccsam. LL13 8NH.

Ymddiriedolwyr a Noddwr

Arglwydd Esgob Gregory Cameron Noddwr
Dr Farookh Jishi Cadeirydd dros dro
Y Parch Anna Jane Evans
Andrea Faulkner (01/07/2020 – 12/12/2020)
Mr John Gallanders
Mrs Nia Higginbotham
Chembo Liandisha (18/11/2020 – 19/03/2021)
Mr Bill Long
Mrs Sylvia Partington
Mr Harry Perera
Yr Hybarch Chris Potter
Mrs Maria Rimmer
Ms Melanie Sinclair
Ms Alison Williams

Ysgrifennydd y cwmni: Mrs Sue Williams

Cyfrifydd sy'n adrodd: John Davies & Co, St Andrews House, Yale Business Village
Ellice Way, Wreccsam. LL13 7YL.

Banc: Lloyds Bank, 28 Stryt Y Rhaglaw, Wreccsam. LL11 1SE.

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad a'u datganiad ariannol anarchwiliedig ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2021.

TCC (Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communities)

Legal and Administrative Information

Reference and Administrative Information

Charity name: TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)

Charity registration number: 1086434

Company registration number: 04033853

Registered office and operational address: 37 Kingsmills Road, Wrexham. LL13 8NH.

Trustees & Patron

Lord Bishop Gregory Cameron	Patron
Dr Farookh Jishi	Acting chair
Rev Anna Jane Evans	
Andrea Faulkner (01/07/2020 – 12/12/2020)	
Mr John Gallanders	
Mrs Nia Higginbotham	
Chembo Liandisha (18/11/2020 – 19/03/2021)	
Mr Bill Long	
Mrs Sylvia Partington	
Mr Harry Perera	
The Venerable Chris Potter	
Mrs Maria Rimmer	
Ms Melanie Sinclair	
Ms Alison Williams	

Company secretary: Mrs Sue Williams

Reporting accountant: John Davies & Co, St Andrews House, Yale Business Village
Ellice Way, Wrexham. LL13 7YL.

Bankers: Lloyds Bank plc, 28 Regent Street, Wrexham. LL11 1SE.

The Trustees are pleased to present their report and unaudited financial statement for the year ended 31st March 2021.

Strwythur, Trefn Lywodraethol a Rheolaeth

Dogfen Lywodraethol

Mae'r sefydliad yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant, a gorfforwyd ar 14^{eg} Gorffennaf 2000 a'i gofrestru fel elusen ar 2^{il} Mai 2001. Sefydlwyd y cwmni dan Femorandwm Sefydlu oedd yn pennu amcanion a phwerau'r cwmni elusennol ac fe'i rheolir dan Erthyglau'r Cwmni. Os digwydd i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben, mae'n ofynnol i'r aelodau gyfrannu swm heb fod yn fwy na £1.

Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolwyr

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol at ddiben cyfraith elusennol. O dan ofynion y Memorandwm Sefydlu ac Erthyglau'r Cwmni, mae'r ymddiriedolwyr wedi eu hethol i wasanaethu am gyfnod o dair blynedd ac ar ôl hynny rhaid iddynt gael eu hail-ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2020, cadarnhaodd y cyfarfod benodiadau Mr Harry Perera (ymddiriedolwr ifanc cyntaf TCC) a'r Hybarch Chris Potter, a oedd wedi'u cyfethol ym mis Chwefror 2020. Safodd y Parchedig Anna Jane Evans, y Doethor Farookh Jishi, a Ms Alison Williams i gael eu hailethol yn dilyn tymor o dair blynedd ac fe'u hailetholwyd. Ymddiswyddodd Mrs Ann Owen o bwrdd yr ymddiriedolwyr; mae'r ymddiriedolwyr, y grwpiau sy'n aelodau ac aelodau'r staff yn diolch i Ann am ei holl waith caled a'i chefnogaeth yn ystod ei thymor gwasanaeth. Ymddiswyddodd y Parchedig Ddoethor Jennifer Hurd hefyd o fod yn ymddiriedolwr a chadeirydd ar ôl cwblhau dau dymor ar y bwrdd; mynegodd yr ymddiriedolwyr, y grwpiau sy'n aelodau ac aelodau'r staff ddiolch o galon iddi am ei gwaith. Cytunodd y Doethor Farookh Jishi, yr is-gadeirydd, i wasanaethu fel cadeirydd dros dro, tra byddai'r ymddiriedolwyr yn penderfynu pwy ddylai gymryd yr awenau fel cadeirydd.

Pleidleisiodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ethol Ms Andrea Faulkner i'r bwrdd ac ym mis Tachwedd 2020 cafodd Ms Chembo Liandisha ei chyfethol i'r bwrdd. Yn anffodus, canfu'r ddwy fod angen iddynt ymddiswyddo fel ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn.

Chwech yw isafrif yr ymddiriedolwyr ac ugain yw'r nifer uchaf.

Mae'r ymddiriedolwyr yn awyddus i dîm yr ymddiriedolwyr barhau i adlewyrchu'r grwpiau sy'n perthyn i TCC ond hefyd bod ymddiriedolwyr sydd â sgiliau rheolaethol, cyllidol, cyfreithiol ac eraill yn cael eu cynnwys yn y tîm. Gofynnir i holl aelodau TCC, ac nid yr ymddiriedolwyr yn unig, chwilio am unigolion addas fydd yn barod i sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad.

Sefydlu a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Hyd yn hyn, mae'r holl ymddiriedolwyr wedi bod yn gyfarwydd â gwaith TCC cyn sefyll fel ymddiriedolwyr. Disgwylir bod pob ymddiriedolwr eisoes wedi mynychu sesiynau hyfforddi ar egwyddorion trefnu cymunedol eang, neu disgwylir iddynt fynychu'r sesiwn hyfforddi nesaf fydd ar gael. Heblaw mynychu cyfarfodydd chwarterol, bydd yr ymddiriedolwyr hefyd yn cyfarfod â'i gilydd bob blwyddyn am ddiwrnod ac yn ystod y cyfnod hwn bydd unrhyw gyfarwyddebau newydd sy'n berthnasol i TCC, naill ai fel elusen neu fel cwmni, yn cael eu hastudio yn ogystal ag unrhyw bwnc neu hyfforddiant arall priodol. Caiff cyfarfod anwytho ei gynnal gydag ymddiriedolwyr newydd lle maen nhw'n derbyn ffeil gyda Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu TCC, dogfennau polisiau a gweithdrefnau a disgrifiadau swydd staff. Caiff ymddiriedolwyr newydd hefyd eu paru gyda chyfaill sydd hefyd yn ymddiriedolwr.

Bu ymddiriedolwyr a phrif drefnyddion mewn prynhawn hyfforddi ynghylch llywodraethiant ym mis Ionawr 2021. Amlygodd yr hyfforddiant, a gyflwynwyd gan Leading Governance, feysydd i'w gwella a'u datblygu, ac mae'r ymddiriedolwyr bellach wedi dechrau gweithio ar gynllun ar gyfer hynny.

Rheoli Risg

Yn ystod y flwyddyn bu'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r prif risgiau mae'r elusen yn eu hwynebu, a lle bo'n briodol, mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i liniaru'r risgiau i'r elusen.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cychwynnodd yr ymddiriedolwyr ar archwiliad mewnol cyffredinol o'r sefydliad er mwyn nodi risgiau, a'r camau cyntaf y cytunwyd arnynt o ganlyniad i hynny yw:

Llunio llawlyfr llywodraethu yn seiliedig ar batrwm llywodraethu cadarn y cytunwyd arno sy'n llywio unrhyw gynllun dirprwyo. Ategir hynny â dilyn yr arfer gorau, rhoi gweithdrefnau monitro ar waith, llunio llawlyfr staff cynhwysfawr sy'n cydnabod y gwaith a wneir gan aelodau staff unigol ac adolygu dyletswyddau ymddiriedolwyr ar sail canllawiau'r Comisiwn Elusennau.

Gwaith pellach ar raglen barhaus o recriwtio a chylchdroi Ymddiriedolwyr.

Sefydlu pwyllgor cyllid gyda chylch gorchwyl addas i sicrhau craffu a chefnogaeth gryfach fyth ar gyfer y trysorydd, yr ymddiriedolwyr ac aelodau'r staff.

Cynllunio ar gyfer y cyfnod ôl-COVID yn enwedig o safbwynt gofod swyddfa, arferion gwaith diwygiedig a sicrhau grantiau ariannol.

Cynhelir archwiliadau iechyd a diogelwch blynyddol a'u cofnodi, a bydd yn ofynnol i aelodau'r staff gwblhau asesiad risg gweithio gartref. Gyda'r tîm staff wedi symud i weithio ar-lein, a'r holl gyfarfodydd a gweithgareddau'n cael eu cynnal ar-lein o fis Ebrill 2020, addaswyd ein gweithdrefnau diogelu i sicrhau y gallem gyflawni ein cyfrifoldebau parthed diogelwch pobl ifanc wrth weithio ar lein.

Strwythur trefniadaeth

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw sicrhau bod TCC yn cwrdd â'i holl ymrwymïadau cyfreithiol a goruchwylïo'r cyllidau. Maent hefyd yn gwarchod unplygrwydd TCC ac yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw benderfyniadau pwysig. Maent yn sicrhau'n benodol bod gweithgareddau TCC yn bodloni gofynion cyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau ar les y cyhoedd. Mae nifer o'r ymddiriedolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn is-grwpiau megis Cyllid a Phersonél, yn ogystal ag agweddau eraill ar waith TCC. Bydd yr is-grwpiau'n adrodd nôl ac yn cyflwyno argymhellion i dîm llawn yr ymddiriedolwyr. Mae un ymddiriedolwr yn rhan o dîm hyfforddi'r sefydliad. Bydd rhai o'r ymddiriedolwyr yn mynychu'r cyfarfod strategaeth fisol, sy'n sicrhau bod yr ymddiriedolwyr ac aelodau'r tîm strategaeth yn ymwybodol o waith y naill a'r llall a bod gwybodaeth yn llifo dwyffordd.

Mae'r tîm strategaeth, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob aelod-sefydliad, yn cyfarfod i werthuso gwaith cyfredol TCC, er mwyn penderfynu pa faterion sy'n addas ar gyfer mynd i'r afael â nhw, yn ogystal â phennu cyfeiriadau newydd mewn perthynas â materion cyfredol. Mae'r tîm strategaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithgorau ynglŷn â phob mater, ac â'r ymddiriedolwyr ac aelod-sefydliadau.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo rheolaeth dydd i ddydd TCC i'r prif drefnydd.

Cynhwysir y staff canlynol yn y tîm: -

- Prif drefnydd cymunedol (swydd ar y cyd), Ms Kay Polley;
- Prif drefnydd cymunedol (swydd ar y cyd), Ms Sam Rex-Edwards;
- Trefnydd pobl ifanc a chymunedol (swydd ar y cyd), Mrs Chloe Gallagher (ar absenoldeb mamolaeth o fis Gorffennaf 2020);
- Trefnydd pobl ifanc a chymunedol (swydd ar y cyd), Ms Lucy Allin;
- Trefnydd cymunedol, Mr Hugo Panayiotou;
- Trefnydd cymunedol, Ms Kelly Roberts;
- Cydlynnydd rhan amser Tref Noddfa Wrecsam, Ms Lucy Allin;
- Cynorthwydd gweinyddol rhan amser, Mrs Sue Williams.
- Swyddog cyfathrebu rhan amser: Ms Lucy Kebell (ymunodd ym mis Gorffennaf 2020).

Aelodaeth

Grwpiau aelod sydd yn cefnogi nodau'r elusen. Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, roedd 43 grŵp yn aelod.

Structure, Governance, and Management

Governing Document

The organisation is a charitable company limited by guarantee, incorporated on 14th July 2000 and registered as a charity 2nd May 2001. The company was established under a Memorandum of Association which established the objects and powers of the charitable company and is governed under its Articles of Association. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £1.

Recruitment and Appointment of Trustees

The directors of the company are also charity trustees for the purpose of charity law. Under the requirements of the Memorandum and Articles of Association the trustees are elected to serve for a period of three years after which they must be re-elected at the next Annual General Meeting.

At the Annual General Meeting on 3rd July 2020 the meeting confirmed the appointments of Mr Harry Perera (TCC's first young trustee) and The Venerable Chris Potter, who had been co-opted in February 2020. Rev Anna Jane Evans, Dr Farookh Jishi, and Ms Alison Williams stood for re-election following a three-year term and were re-elected. Mrs Ann Owen stepped down from the trustee board; trustees, member groups and staff thank Ann for all her hard work and support during her term. Rev Dr Jennifer Hurd also stood down from her role as trustee and chair after completing two terms on the board; trustees, member groups and staff extended an enormous thank you for her work. Dr Farookh Jishi, as vice-chair, agreed to take the role of acting chair, whilst trustees agreed who would take over as chair.

The AGM voted to elect Ms Andrea Faulkner to the board and in November 2020, Ms Chembo Liandisha was co-opted to the board. Unfortunately both trustees found they needed to step down from the role during the year.

The minimum number of trustees is six and the maximum number is twenty.

The trustees seek to ensure that the trustee team continues to reflect the groups that belong to TCC, and also that trustees with managerial, financial, legal and other skills are incorporated into the team. All members of TCC, not just trustees, are asked to seek out suitable candidates to stand for election.

Trustee Induction and Trainings

To date all trustees have been familiar with the work of TCC before their election. All trustees are expected to have already attended training on the principles of broadbased community organising, or to attend the next available training session. Besides attending quarterly meetings, trustees meet for an annual longer meeting together at which any new directives relevant to TCC, either as a charity or as a company, are studied, as well as any other appropriate topic or training. An induction meeting is held with new trustees and they are provided with a file with TCC's Memorandum and Articles of Association, policy and procedure documents and staff job descriptions. New trustees are also matched with a trustee buddy.

Trustees and lead organisers attended a governance training afternoon in January 2021. The training, delivered by Leading Governance, highlighted areas for improvement and development, a plan for which trustees have begun to work on.

Risk Management

During the year the trustees have reviewed the major risks to which the charity is exposed, and where appropriate, procedures have been established to mitigate the risks that the charity faces.

At the end of the financial year, trustees commenced a general internal audit of the organisation in order to identify risks, of which the first actions agreed are:

To create a governance manual based on a robust and agreed governance model which informs any scheme of delegation. This will be supported by best practice, monitoring procedures, and a comprehensive staff handbook with acknowledgement of work done by individual staff members, and a review of trustees' duties based on Charity Commission guidance.

Further work on an ongoing programme of trustee recruitment and rotation.

Setting up a finance committee with suitable terms of reference to ensure even stronger scrutiny and support for treasurer, trustees, and staff.

Planning for post-Covid times especially office space, revised working practices and financial grants. Annual health and safety checks are undertaken and documented, with staff required to complete a working from home risk assessment. With the staff team having moved to working online, and all meetings and activities taking place online from April 2020, we adjusted our safeguarding procedures to ensure we could meet our responsibilities for the safety of young people whilst working online.

Organisational Structure

Trustees must meet at least three times a year. The trustees are responsible for TCC meeting all of its legal obligations and for overseeing the finances. They also protect the integrity of TCC and are directly involved in any major decisions. They particularly ensure that TCC's activities meet the Charity Commission's guidance on public benefit. Many trustees are actively involved in subgroups such as Personnel. Subgroups report back with recommendations to the full trustee team. One trustee is part of the organisation's training team. Some of the trustees attend the monthly strategy meeting, which ensures that trustees and strategy team members are aware of the work of each other and that there is a two-way flow of information.

The strategy team, drawn from each member group, meets to evaluate the current work of TCC, to decide which issues are appropriate to work on, as well as to determine new directions within current issues. The strategy team link directly to the working groups for each issue, as well as to trustees and member groups.

The day to day management of TCC has been delegated by the trustees to the lead organiser.

The staff team comprised:

- Lead organiser (job-share), Ms Kay Polley;
- Lead organiser (job-share), Ms Sam Rex-Edwards;
- Youth and community organiser (job-share), Mrs Chloe Gallagher (on maternity leave from July 2020);
- Youth and community organiser (job-share), Ms Lucy Allin;
- Community organiser, Mr Hugo Panayiotou;

- Community organiser, Ms Kelly Roberts;
- Part-time Town of Sanctuary coordinator, Ms Lucy Allin;
- Part-time administrative support worker, Mrs Sue Williams.
- Part-time communications officer, Ms Lucy Kebell (joined July 2020).

Membership:

The membership comprises of organisations supporting the objects of the charity. As at the end of March 2021, there were 43 groups in membership.

Lles cyhoeddus

Mae amcanion TCC fel a ganlyn:

1. Datblygu gallu cynhyrchu a sgiliau aelodau o gymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tiroedd sy'n ffinio â'r wlad hon, a hynny yn y fath fodd fel eu bod yn gallu adnabod a chwrrd â'u gofynion yn well yn ogystal â chymryd rhan iawnach mewn cymdeithas.
2. Hybu, at ddibenion lles cyhoeddus, unrhyw ddibenion elusennol ac yn arbennig unrhyw ddibenion elusennol sy'n gysylltiedig â:
 - a) hybu cyfleoedd addysgol a chyfleoedd hyfforddi, gyda phwyslais arbennig ar ddarparu mynediad i gyfleoedd o'r fath i bobl sydd, oherwydd anfantais gymdeithasol ac economaidd, fel arall yn methu cael mynediad iddynt ac wrth argymhell egwyddorion dinasyddiaeth dda a chynnig dealltwriaeth weithredol o'r gyfraith, gwleidyddiaeth, cymdeithas, crefydd, moesau, masnach, diwydiant, y celfyddydau, ecoleg a phynciau eraill, i'r graddau y gellir bod yn gydnaws â dinasyddiaeth dda.
 - b) symud addysg y cyhoedd yn ei blaen ym mhob mater sy'n ymwneud â'r amgylchedd, ei gadwraeth, amddiffyniad a phynciau cysylltiedig ag annog defnyddio'r cyfryw arferion
 - c) adfywiad dinesig neu wledig mewn ardaloedd lle ceir amddifadiad cymdeithasol ac economaidd
 - ch) hybu datblygiad personol drwy annog a galluogi pobl i gaffael y sgiliau angenrheidiol er mwyn cymryd rhan weithredol mewn bywyd dinesig
 - d) amddiffyn, gwella a gwarchod yr amgylchedd
 - dd) lliniaru tlodi
 - e) darparu cyfleusterau iechyd cyhoeddus a gofal plant
 - f) hybu diogelwch cyhoeddus ac atal troseddau

Prif nod TCC yw datblygu unigolion a'u sefydliadau fel y gallant weithredu yn effeithiol ar sail eu gwerthoedd er lles y gymuned drwy eu hymwneud â bywyd dinesig. Fel grŵp Trefnu Cymunedol hynaf y Deyrnas Unedig mae TCC yn parhau i arloesi ffordd newydd o gynorthwyo pobl i gael llais yn eu dyfodol eu hunain.

Mae TCC yn hybu ei ddibenion elusennol er lles y cyhoedd drwy gwrdd â'r amcanion uchod a hynny drwy hyfforddi aelodau (tua chant ohonynt yn y flwyddyn a aeth heibio) a'u cyfarparu i gymryd rhan gyflawn yn eu cymunedau, a thrwy hynny oresgyn yr anfantais cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu hwynebu. Bydd TCC wedyn yn gweithio ochr yn ochr â nhw, yn eu hyfforddi i weithredu, wrth iddynt gwrdd ag anghenion eu cymunedau drwy weithio ar faterion sy'n effeithio arnynt a'r gymuned ehangach.

Cyflawniadau a Pherfformiad 2020 – 21

Fel ar gyfer pob corff, roedd 2020-21 yn golygu newid cyflym a sylweddol yn y ffordd roedd TCC yn gweithio. Bu'n rhaid i ni symud ar frys o sefyllfa pan oedd ein holl waith yn cael ei gyflawni wyneb yn wyneb i weithio'n gyfan gwbl ar-lein. Mae TCC mewn sefyllfa ffodus, gan ei bod yn bosibl cyflawni'r rhan fwyaf o'n gwaith ar-lein, ac rydym wedi parhau i weithio ar faterion penodol, wedi cynnal digwyddiad llwyddiannus i nodi ein pen-blwydd yn 25 mlwydd oed, ac wedi parhau i adeiladu ein haelodaeth. Wedi dweud hynny, nid ydym wedi gallu darparu ein hyfforddiant preswyl wyneb yn wyneb ac rydym yn edrych ymlaen at allu cynnig hynny eto yn ystod 2021-22.

Mae'r manteision o weithio ar-lein yn unig wedi bod yn sylweddol - mae mwy o bobl o ystod ehangach o'r grwpiau sy'n aelodau wedi gallu cyfrannu at ein gweithgorau i ddatblygu gwaith ar wahanol faterion ac mae mwy o bobl wedi cymryd rhan yn ein cyfarfodydd strategaeth misol (sy'n gosod agenda waith y TCC ac yn adolygu'r cynnydd gyda'r gwaith ar faterion penodol). Fodd bynnag, mae ffurfio a chynnal perthynas yn ganolog i drefnu cymunedol, ac mae llawer wedi'i golli oherwydd methu â chyfarfod wyneb yn wyneb.

Aelodaeth

Gyda rhagor o aelodau staff, rydym wedi gallu trafod mwy gydag amrywiol grwpiau ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu cymunedau a swyddogaeth trefnu cymunedol wrth ymateb i'r materion hynny. I'r perwyl hwnnw, eleni rydym wedi bod yn falch o groesawu 10 o grwpiau newydd i TCC: Gwrthryfel Difodiant Wrecsam, *Flintshire City of Sanctuary*, *Flintshire DO-IT*, Cyfeillion y Ddaear Llangollen a'r Cylch, Cwmni Buddiannau Cymunedol *reSource*, Cyfeillion y Ddaear Rhuthun, Ymddiriedolaeth Mary Dei, *Yellow & Blue*, *We Are Plas Madoc*, a'r Tŷ Gwyrdd.

Rydym bob amser yn chwilio am aelodau newydd ac yn annog ein haelodau presennol i gyflwyno grwpiau newydd i TCC. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn chwilio am grwpiau newydd i ymuno â TCC o Sir y Fflint a Sir Ddinbych.

Cyllid

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyllid a glustnodwyd ar ein cyfer yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, y *Tudor Trust* a *Chronfa Act for Change* ac mae'r grantiau hynny wedi sicrhau dilyniant, gan eu bod yn parhau dros sawl blwyddyn.

Yn sgil y berthynas a adeiladwyd gyda Sefydliad Bevan yn ystod ein gwaith ar ymgyrch Stop School Hunger / Dysgu Nid Llwg, cysylltodd y sefydliad â TCC gyda chynnig i ni weithio mewn partneriaeth ar ddau brosiect. Derbyniasom £7,500 i ariannu mwy o waith gan ein prif drefnwyr am naw mis i gyflawni prosiect partneriaeth yn gweithio ar faterion tlodi, arian a ddyrannwyd o grant gan *Joseph Rowntree Foundation*. Yn yr ail bartneriaeth, clustnodwyd £22,500 i ehangu ein gwaith â phobl sydd wedi mudo, a hynny dros gyfnod o ddeuddeng mis. Arian oedd hwnnw a ddyfarnwyd gan *Paul Hamlyn Foundation* yn wreiddiol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyllidwyr hyn ac i Sefydliad Bevan am barhau â'u cefnogaeth ac â'u perthynas â TCC.

Bu ein cyllidwyr yn hyblyg ac yn gefnogol wrth i ni ymateb i heriau symud ein holl waith ar lein ac rydym yn ddiolchgar am hynny.

Mae TCC hefyd yn ddiolchgar iawn i Chwirydd La Sante Union yn Wrecsam am barhau i'n cynorthwyo drwy ddarparu swyddfeydd ac ystafell gyfarfod. Mae hyn yn werth tua £7,000 y flwyddyn, ac mae'n ein galluogi i gadw ein costau cynnal cyn ised â phosibl – edrychwn ymlaen at ddychwelyd i'n swyddfeydd pan fydd hynny'n ymarferol.

Hefyd, mae gwaith yr ymddiriedolwyr a'r arweinwyr wedi ychwanegu'n aruthrol i'r gefnogaeth mewn nwyddau.

Yn ystod y flwyddyn codwyd £5,233 drwy raglen cefnogwyr misol TCC. Daw hyn i tua £6,500 ar ôl ychwanegu Cymorth Rhodd. Hoffai'r ymddiriedolwyr ddiolch yn arbennig i'r unigolion yn rhaglen cefnogwyr TCC, ac annog unrhyw un arall sy'n gallu gwneud hynny i ystyried ymuno â chyfrannu'n rheolaidd i TCC. Mae taliadau aelodaeth yn dal i fod yn elfen hanfodol o'n cyllid, eleni yn dod i £5,450.

Mae cyllidwyr bellach yn aml yn gofyn am dystiolaeth o waith codi arian gan y sefydliad ei hun, felly mae'r ffaith i ni lwyddo i godi'r arian uchod hefyd o gymorth mawr i ni wrth i ni ymgeisio am grantiau mwy. Ers sawl blwyddyn rydym wedi bod yn cynnal 'Wythnos TCC', yn flynyddol, gan drefnu amrywiaeth o weithgareddau codi arian yn y gymuned. O ystyried bod ein sefyllfa ariannol yn gryf eleni, ac yn wyneb effeithiau'r pandemig, penderfynwyd y byddai'n amhriodol cynnal Wythnos TCC yn 2020.

Gweithio gyda phartneriaid

Hoffai'r ymddiriedolwyr ddiolch i'r sefydliadau niferus y bu TCC yn gweithio gyda hwy dros y flwyddyn ddiwethaf - rydym yn gwerthfawrogi'r holl gysylltiadau hyn ac ni allem wneud ein gwaith hebddynt.

Mae'r ffaith ein bod yn rhan o Gynghrair Gwrth-dlodi Cymru yn golygu ein bod yn gallu gweithredu'n gyflym gyda'n gilydd ar gamau allweddol yn y gwaith yn erbyn tlodi yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu ar lefel mwy hirdymor. Mae'r gwaith o ddatblygu agweddau newydd ar ein gwaith ym maes tai a newid yn yr hinsawdd wedi'i lywio gan lawer o drafodaethau gyda chyrrff arbenigol, ac rydym yn ddiolchgar iddynt.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag amrywiaeth o sefydliadau drwy ein gwaith Tref Noddfa, gan gynnwys AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam), Bawso, y Groes Goch Brydeinig, Coleg Cambria, Ffrindiau i Deuluoedd, UAREUK, Wrexham VOICES Network a Siambrau Eastgate.

Hoffai'r bwrdd ddiolch i Esgobaeth Llanellwyr yr Eglwys yng Nghymru am gyfraniad yr Esgob Gregory Cameron yn ei swyddogaeth fel noddwr TCC ac yn enwedig am ei gyfraniad i'n digwyddiad dathlu ein chwarter canrif. Hoffai'r bwrdd ddiolch hefyd i'r Doethor Farookh Jishi am weithredu fel cadeirydd dros dro bwrdd ymddiriedolwyr TCC. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Eglwys Bresbyteriaidd Cymru drwy'r Parchedig Anna Jane Evans, sy'n aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr TCC.

Hyfforddiant

Gan i'n hyfforddiant preswyl trefnu cymunedol a oedd wedi'i drefnu gael ei ganslo, penderfynasom yn hytrach gynnal dau weithdy rhagarweiniol ar drefnu cymunedol, 'Sut gall cymunedau lleol fod yn bwerus?'. Anelwyd y rhain at bobl o grwpiau sy'n aelodau sy'n llai cyfarwydd â'n gwaith, a grwpiau aelodau newydd posibl yn y Gogledd-ddwyrain. Cynhaliodd ein Trefnydd Ieuenctid a Chymunedol ddwy gyfres hyfforddi Campaign Kickstarter ar gyfer pobl ifanc. Mynychodd chwe arweinydd ifanc newydd a bu'n hyfforddiant gloywi i rai a fu ynglŷn â'r gwaith eisoes.

Mae sefydlu dau weithgor materion penodol (tai a newid hinsawdd) a threfnu gweithredu cysylltiedig wedi cynnig ystod eang o gyfleoedd i arweinwyr ddysgu sut i drefnu'n ymarferol.

Mae croeso i unrhyw un o grwpiau aelod TCC fanteisio ar ein hyfforddiant preswyl yn rhad ac am ddim. Mae'r sesiynau yn gyfle ichi ddatblygu perthnasau gydag eraill o wahanol grwpiau a'r nod yn y pendraw ydy rhoi hwb i'ch hyder a datblygu'r sgiliau angenrheidiol i weithio'n effeithiol yn eich cymuned. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau unigryw yn rhad ac am ddim i aelodau TCC. Gallwn eu trefnu fel eu bod yn diwallu anghenion y grŵp.

Personél

Ym mis Gorffennaf 2020, aeth Chloe Gallagher ar absenoldeb mamolaeth, gyda Lucy Allin yn cynyddu ei horiau am gyfnod i gwmpasu'r rôl trefnydd ieuencid a chymunedol. Fodd bynnag, wrth iddi ddod yn amlwg na fyddem yn gallu gweithio gydag ysgolion am gryn amser, lleihawyd yr oriau hyn, ac rydym yn ddiolchgar i gronfa *Act for Change* am ein galluogi i estyn y cyfnod cyllido.

Roeddem yn falch iawn o groesawu Lucy Kebell i'r tîm ym mis Gorffennaf i weithio fel ein swyddog cyfathrebu cyntaf.

Gweithgareddau a Chyflawniadau'r Flwyddyn Ddiwethaf

Pynciau a gweithredu

- Gan weithio fel aelod brwd o Gynghrair Gwrth-dlodi Cymru, fe wnaethom sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu pryduau ysgol am ddim tra bod ysgolion ar gau ac yn ystod gwyliau ysgol. Gweithiodd y Gynghrair hefyd i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull arian parod yn gyntaf o weithredu'r ddarpariaeth hon, gyda TCC yn cyfrannu drwy weithio gydag awdurdodau'r Gogledd-ddwyrain ar hyn.
- Y llynedd sicrhodd ymgyrch Stop School Hunger / Dysgu Nid Llwg TCC ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r lwfans pryduau ysgol am ddim o bunt y dydd i ddisgyblion cymwys, fel y gallent brynu brecwast yn ogystal â chinio yn yr ysgol. Fodd bynnag, gohiriwyd y cynllun peilot oherwydd cau ysgolion. Eleni buom yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr ymrwymiad yn parhau i gynnal y peilot, er gwaethaf y cau a'r heriau a oedd yn parhau, ac roeddem wrth ein bodd bod y cynllun peilot wedi dechrau ym mis Ionawr.
- Llofnododd aelodau Gynghrair Gwrth-dlodi Cymru lythyr ac anfonasom at benaethiaid addysg ac arlwyo'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, yn eu hannog i gymryd rhan yn y cynllun peilot.
- Cofnodwyd llwyddiant yr ymgyrch [Stop School Hunger / Dysgu Nid Llwg](#) mewn ffilm a gafodd ei wyllo dros bedair mil o weithiau ar-lein. O ganlyniad i'r ymgyrch, cawsom hefyd wneud cyflwyniad i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Dlodi.
- Cynhaliwyd y digwyddiad i ddathlu ein chwarter canrif ar-lein, gydag ymron i ddau gant o bobl yn ymuno, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru a gwneuthurwyr penderfyniadau eraill. Cafwyd ymrwymadau ganddynt i weithredu ynghylch nifer o bynciau cyfredol y tynnodd aelodau TCC eu sylw atynt. Roedd ugain o arweinwyr yn llywio'r digwyddiad neu'n cyfrannu tuag ato, gyda llawer mwy'n cyfrannu tu ôl i'r llenni, a hoffem ddiolch o galon i bawb ohonynt.
- Lansiodd ymgyrch ynghylch newid yn yr hinsawdd gennym, gydag arweinwyr yn sicrhau ymrwymiad yn ein digwyddiad hanner canmlwyddiant gan Gynghorau Sir Wrecsam, y Fflint a Dinbych i wneud y canlynol: anfon aelodau staff ar hyfforddiant llythrennedd carbon, codi'r mater ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a chynnwys gwybodaeth gyda dolennau eglur ar eu gwefannau ynghylch eu hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol.
- Cyflwynodd Hope for the Future hyfforddiant ar gyfer ein harweinwyr ynghylch sut i ymgysylltu â'r cyngor lleol (gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd).
- Lansiodd ymgyrch hefyd ynghylch tai, pa fu i'n harweinwyr sicrhau ymrwymiad yn ein digwyddiad hanner canmlwyddiant gan Gynghorau Sir Wrecsam, y Fflint a Dinbych i gyfarfod i drafod gweithredu ar gynigion i gynorthwyo ymgeiswyr am dai cyngor i ddeall y broses ymgeisio yn well ac i ddarparu gwybodaeth eglur ynghylch cyfrifoldebau'r cynghorau o safbwynt gorfodi safonau o fewn y sector rhentu preifat.
- Buom yn gweithio gydag arweinwyr Bawso i godi mater llety mewn gwestai ar gyfer pobl a oedd yn dianc rhag cam-drin yn y cartref gyda Chynghorau Sir Wrecsam, y Fflint a Dinbych. Fe wnaethom sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n gyflym â gwestai a darparwyr gwely a brecwast lleol fel, pan ddeuai rhywun gan geisio llety ganddynt, y gallent gynnig llety i'r unigolyn yn syth, ac ond wedyn hysbysu'r awdurdod lleol (yn lle gorfod ceisio caniatâd yn gyntaf).
- Mae ein hymgyrch iechyd meddwl yn canolbwyntio ar y newidiadau bach y gall practisau meddygon teulu eu gwneud i wella'r profiad i gleifion pan fyddant yn dod a dod i weld y meddyg oherwydd problem iechyd meddwl am y tro cyntaf. Arafodd y cynnydd ar hyn wrth i wneuthurwyr penderfyniadau a phartneriaid orfod canolbwyntio ar eu hymateb i COVID,

ac wrth i bractisau meddygon teulu newid eu ffyrdd o weithredu'n sylfaenol. Cyfarfu'r gweithgor â meddyg teulu a phartneriaid eraill i ofyn am eu barn ar ein hargymhellion a byddwn yn ailafael yn y gwaith hwn pan fydd yn ymarferol i ni wneud hynny.

- Mewn gwaith yn ymwneud â ni ein hunain fe unigolion ac fel mudiad, trefnasom dri chylch deialog gwrth-hiliaeth a oedd yn ymdrin â hiliaeth a gwrth-hiliaeth, sut i wneud safiad a rhagfarn anymwybodol.
- Cyfarfu arweinwyr TCC â dau Aelod Seneddol a oedd newydd eu hethol a chodwyd materion yr ydym yn gweithio arnynt.
- Dechreuwyd trefnu a chynnal cyfarfodydd atebolrwydd yn dilyn etholiadau Senedd Cymru, gyda dau gyfarfod ar lefel etholaeth wedi cael eu cynnal erbyn llunio'r adroddiad hwn.
- Cyn yr etholiad, trefnwyd sesiwn gan dîm allgymorth Senedd Cymru ynghylch Senedd Cymru – roedd y sesiwn wedi'i hanelu'n arbennig at arweinwyr ifanc a dinasyddion tramor a oedd newydd ddod yn gymwys i bleidleisio.
- Cymerodd arweinwyr TCC ran mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

Arweinwyr ifanc

- Cwblhaodd y grŵp Ieuentid yn Gweithredu y gwaith ar ddatblygu adnodd a gwobr Healthy Minds Haven / Hafan Meddyliau Iach ar gyfer ysgolion uwchradd. Cynhaliodd y grŵp gyfarfod llwyddiannus â Karen Evans, y prif swyddog ar gyfer addysg ac ymyrraeth gynnar gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a gytunodd i gefnogi a hyrwyddo'r wobwr.
- Cyfarfu'r grŵp Ieuentid yn Gweithredu ar-lein bob wythnos rhwng mis Mawrth a dechrau mis Awst, ac ymatebodd yn egniol i faterion a gododd yn sgil y cyfyngiadau symud a'r pandemig, megis darparu ymateb ynghylch allgáu digidol i Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru.
- Cyfarfu arweinwyr ifanc o Ysgol Sant Christopher â'u pennaeth newydd, a gytunodd i barchu ymrwymadau blaenorol ynghylch cymorth ar gyfer myfyrwyr sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.
- Trefnasom hyfforddiant Campaign Kickstarter ar gyfer pobl ifanc.
- Cymerodd arweinwyr ifanc ran yn hyfforddiant gohebwr ifanc y BBC a hyfforddiant cadeirio TCC.
- Mae arweinwyr ifanc TCC wedi cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau a digwyddiadau drwy holl ystod ein gwaith, gan gynnwys dathlu'n chwarter canrif, cyfarfodydd atebolrwydd a rhedeg cyfarfodydd strategaeth misol.
- Mae'r corff sy'n cyllido ein gwaith trefnu ieuentid, sef cronfa Act for Change, wedi darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu ar-lein i arweinwyr ifanc ac i aelodau staff ifanc, y buom yn cymryd rhan ynddynt.

Tref Noddfa

- Cafodd Wrecsam ei chydnabod fel Tref Noddfa (dyddiad y digwyddiad dathlu i'w gadarnhau).
- Llofnododd Prifysgol Glyndŵr, Cyngor Cymuned Gwersyllt, a Lesley Griffiths AoS, ymhlith eraill, addewid cefnogi'r Dref Noddfa.
- Buom yn ymgyrchu ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl sy'n ceisio diogelwch, gan gynnwys Lift the Ban, Aduno Teuluoedd, cynyddu cymorth i geiswyr lloches ac oedi troi allan o lety gwasgaru ceiswyr lloches.
- Buom yn gweithio'n agos ag arweinwyr TCC sydd â phrofiad llygad y ffynnon a Siambrau Eastgate i sicrhau bod y Swyddfa Gartref yn deall na ddylai pobl sy'n ceisio lloches ac sy'n byw yng Ngogledd Cymru gael eu gosod o dan anfantais yn sgil cynlluniau i ailgychwyn y broses lloches (yn dilyn saib oherwydd COVID) – rydym yn optimistaidd y bydd cyfleusterau cyfweld o bell yn cael eu lleoli yn Wrecsam.

- Datblygwyd [tudalennau gwe Tref Noddfa](#) newydd.
- Dechreuwyd gweithio gyda Sefydliad Bevan ar bartneriaeth mudo – gyda’r nod o hyfforddi pobl â phrofiad llygad y ffynnon o fudo i Gymru mewn trefnu cymunedol, gan eu galluogi i sicrhau newid mewn polisi ar raddfa fawr a bach.

Arweinwyr a chysylltiadau

- Ymunodd un ar ddeg o grwpiau newydd â TCC: Gwrthryfel Difodiant Wrecsam, Dinas Noddfa Sir y Fflint, Cwmni Buddiannau Cymunedol Sir y Fflint yn Mynd Ati, Cyfeillion y Ddaear Llangollen a’r Rhanbarth, Cwmni Buddiannau Cymunedol reSource, Cyfeillion y Ddaear Rhuthun, Ymddiriedolaeth Mary Dei, Melyn a Glas, Ni yw Plas Madoc, Digartref Wrecsam, a’r Tŷ Gwyrdd.
- Cynhaliwyd sesiwn gwrrd a chyfarch wedi’i hanelu at grwpiau a oedd newydd ddod yn aelodau, fel y gallent rwydweithio â’i gilydd a chydag arweinwyr sydd wedi bod gyda ni’n hirach.
- Cynhaliwyd ymgyrch wrando ar ddechrau’r pandemig i ymgysylltu â’n grwpiau sy’n aelodau a dechrau nodi pynciau ymgyrchu newydd.
- Cyflwynodd arweinwyr ac aelodau staff ddau weithdy ar-lein ar drefnu cymunedol, *‘Sut gall cymunedau lleol fod yn bwerus?’*, gyda 45 o bobl yn bresennol.
- Daethom yn aelod o Rwydwaith Trefnu Cymunedol Ewrop (ECON) ac ailsefydlu’n perthynas â Sefydliad Gamaliel yn yr Unol Daleithiau.
- Roeddem yn falch o gael cyflwyno gweithdai mewn cynadleddau a drefnwyd gan Community Organisers, Rhwydwaith Trefnu Cymunedol Ewrop a FOCO (Forum Community Organising, sy’n gweithio o’r Almaen).
- Buom yn gweithio ar ddatblygu’n perthynas ag Ymddiriedolaeth Bevan ymhellach, a arweiniodd at gyllido a gweithio ar y cyd, a fydd yn digwydd yn bennaf yn ystod 2021.

Llywodraethiant a threfniadaeth

- Derbyniodd Ymddiriedolwyr a’r Prif Drefnwyr hyfforddiant mewn llywodraethiant, a gyflwynwyd gan Leading Governance. Yn dilyn hynny, dechreuwyd adolygu a gweithio ar wella nifer o’n prosesau llywodraethu.
- Penodasom ein Swyddog Cyfathrebu cyntaf, a buom yn gweithio gyda’n gilydd (o bell) fel tîm staff estynedig newydd.
- Er mwyn hybu lles staff, fe wnaethom ymuno â rhaglen cymorth i weithwyr. Rydym yn ddiolchgar i Melanie Sinclair, un o’n Hymddiriedolwyr sydd yn ymarferydd ymwybyddiaeth ofalgar ardystiedig, a gynhaliodd ddwy sesiwn ymwybyddiaeth ofalgar i aelodau staff.

Arolwg Ariannol

Y Prif Ffynonellau Cyllido

Ystod o grantiau yw prif ffynonellau cyllido TCC yn 2020-21. Bu inni dderbyn cyllid gan:

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- *Act for Change Fund*
- *The Tudor Trust*
- Sefydliad Bevan (trosglwyddo grantiau gan *Joseph Rowntree Foundation* a *Paul Hamlyn Foundation*)
- *The People's Postcode Trust*
- Synod Cymru, Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Mae'r grantiau'n ychwanegol at y ffioedd blynyddol a delir gan y grwpiau sy'n aelodau a'r arian o Raglen y Cefnogwyr a digwyddiadau codi arian.

Y Polisi Arian Wrth Gefn

Mae gan yr ymddiriedolwyr bolisi cyfrifon wrth gefn sy'n caniatáu i ni gadw swm cydradd â gwariant anghyfyngedig 6 -12 mis er mwyn diogelu parhad gwaith craidd TCC. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon roedd gan yr elusen gwerth tua 11 mis o arian anghyfyngedig wrth gefn.

Polisi Buddsoddiad

Mae Erthyglau Memorandwm TCC yn awdurdodi doddi mewn cyfrif neu fuddsoddi arian nad yw ei angen i'w ddibenion ar unwaith. O ganlyniad, agorwyd cyfrif Cronfa Buddsoddiad Swyddogol Elusennau (COIF) ym mis Mai 2008.

Cynllunio am y dyfodol

Diben trefnu cymunedol ydy datblygu perthnasau cadarnhaol a chyhoeddus gyda'r rheiny sydd mewn grym. Mae'n meithrin perthnasau cymunedol hirdymor ac yn cynnig model ar gyfer pobl o bob lliw a llun i ymwneud yn ddemocrataidd gyda gwneud penderfyniadau. Rydym yn credu'n gryf mewn amseroedd gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hollt, bod trefnu cymunedol yn hanfodol. Gwyddom fod effaith COVID-19 a'r sawl cyfnod clo wedi dwysáu a gwaethygu anghydraddoldebau cymdeithasol, a byddwn yn parhau i geisio dod o hyd i hanesion ynghylch sut mae hynny wedi effeithio ar gymunedau ac i ganfod materion y gallwn weithio arnynt er sicrhau newid ymarferol.

Gydag un ar ddeg o grwpiau newydd wedi ymaelodi, ac arweinwyr newydd yn codi o grwpiau hirsefydlog, rydym yn awyddus iawn i gynnal ein hyfforddiant preswyl yn hydref 2021. Gwyddom hefyd fod angen i ni ddiwallu anghenion a disgwyliadau aelodaeth sylweddol fwy yn effeithiol, a dod ag arweinwyr newydd a rhai mwy profiadol ynghyd ar sail diddordebau a gwerthoedd cyffredin. Ar nodyn ymarferol, byddwn yn gweithio gyda'r grwpiau sy'n aelodau a'n harweinwyr i gytuno ar y ffordd orau o ddechrau gweithio wyneb yn wyneb eto, a gallai hynny olygu buddsoddi mewn offer a fyddai'n caniatáu cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb y gellid ymuno â hwy ar-lein hefyd.

Gyda thîm staff sydd wedi ei ehangu'n gymharol ddiweddar, newidiadau yn y Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r newid i weithio ar-lein sydd bellach yn dod yn arferol, dyma'r cyfle hefyd i adolygu, cryfhau a gwella ein prosesau llywodraethu.

Wedi ei chymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ar y 8fed o Fehefin 2021 ac wedi ei harwyddo ar eu rhan:

Dr Farookh Jishi (cadeirydd dros dro)

Public Benefit

The objectives of TCC are to:

1. develop the capacity and skills of the members of socially and economically disadvantaged communities in Wales and its borderlands in such ways that they are better able to identify, and help meet, their needs and to participate more fully in society.
2. promote for public benefit any charitable purposes and in particular charitable purposes connected with:
 - a) promotion of educational and training opportunities with special emphasis on providing access to such opportunities for people who are by reason of social and economic disadvantage otherwise unable to gain access and on inculcating the principles of good citizenship and advancing active understanding of law, politics, society, religion, morals, commerce, industry, arts, ecology and other subjects in so far as to be conducive to good citizenship.
 - b) advancing the education of the public in all matters relating to the environment, its conservation, protection and related subjects and encourage the use of such practice.
 - c) urban or rural regeneration in areas of social and economic deprivation
 - d) promoting personal development by encouraging and enabling people to acquire the skills required to take an active part in civic life
 - e) protection, enhancement and conservation of the environment
 - f) relief of poverty
 - g) provision of public health facilities and childcare
 - h) promotion of public safety and prevention of crime.

TCC's key aim is capacity building, developing individuals and their institutions who can act effectively on their values for the common good through their involvement in civic life. As the oldest Community Organising group in the UK TCC continues to pioneer a new way of allowing people to have a voice in their own futures.

